**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Eirwyn Williams (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Charles Jones (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Craig ab Iago, Elwyn Edwards, Tom Ellis, Alan Jones Evans, Gareth Wyn Griffith, Alwyn Gruffydd, Eric M. Jones, Elfed Williams, Hefin Williams, ac Owain Williams

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn (Aelod Cabinet – Y Gymraeg).

**Swyddogion:** Debbie Anne Jones, Swyddog Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg, Gwenllian Williams (Swyddog Datblygu Iaith), Garem Jackson (Swyddog Addysg Ardal Gymraeg) ac Ann Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorydd Gweno Glyn a John Wyn Williams.

**1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**2. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 5 Gorffennaf 2016 fel rhai cywir.

**3. ADRODDIAD YR AELOD CABINET – Y GYMRAEG**

Cyflwynwyd – adroddiad llafar yr Aelod Cabinet – Y Gymraeg, yn manylu ar ddatblygiadau diweddar o fewn y maes, gan gynnwys y canlynol:-

- Awdit Iaith a'r cynllun gweithredu. Cyfarfod pedwar Pennaeth Gwasanaeth – Economi a Chymuned, Rheoleiddio, Oedolion, Iechyd a Llesiant, ac Ymgynghoriaeth i bwysleisio pwysigrwydd yr iaith Gymraeg gan ofyn iddynt raglennu gwaith i ymateb i'r materion a godwyd.
- Ceisiwyd cyfarfod efo Aelodau Cabinet Cynghorau cyfagos i drafod sut maent yn bwriadu ymateb i ofynion Safonau Iaith ond methiant llwyr fu'r ymgais hynny. Wedi cyfarfod buddiol iawn efo Swyddog Iaith Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy, cytunwyd i gynnal cyfarfod ar y cyd ym mis Ionawr gyda holl Swyddogion Iaith i drafod y Safonau Iaith.
- Cafwyd cyfarfod buddiol gyda swyddog o Swyddfa'r Comisiynydd Iaith i rannu gwybodaeth.
- Cyfarfod Grŵp Strategol Hunaniaith wedi ei gynnal, yno cytunwyd i wahodd aelodau Grŵp Gweithleoedd hunaniaith a chynrychiolaeth o Fforwm Iaith Môn i'r cyfarfod nesaf ar gyfer trafod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Lansio Popdy - Canolfan Iaith Bangor yfory gydag Alun Davies AC, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, Llywodraeth Cymru .
- Bu Alun Davies AC ar ymweliad, yn Ysgolion Abercaseg a Phen-y-bryn, Bethesda heddiw. Yno cafwyd sgwrs gyda Bethan Webb, Dirprwy Gyfarwyddwr y Gymraeg, Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol dros Fentrau Iaith a bydd cyfle pellach i drafod llwyddiannau ynghyd â materion na lwyddwyd eu cyfarch mewn cyfarfod sydd eto i'w drefnu.

Gofynnwyd a oedd paratoadau ar gyfer y miloedd o bobl, a fydd yn symud i mewn i'r ardal yn sgil datblygiad Horizon? Adroddwyd bod cwmni Horizon wedi trefnu cyfres o gyfarfodydd gyda gwasanaethau Cyngor Gwynedd wythnos nesaf.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

**4. YMGYNGHORIAD AR STRATEGAETH Y GYMRAEG**

Cyflwynwyd ymateb drafft yr Aelod Cabinet i'r ddogfen ymgynghori: Miliwn o siaradwyr erbyn 2050. Nodwyd bod ffocws Strategaeth Iaith y Llywodraeth flaenorol wedi symud ymlaen erbyn y Strategaeth hon i ganolbwyntio bron yn llwyr ar addysg a thwf addysg Gymraeg fel y cyfrwng i allu gwireddu'r miliwn o siaradwyr erbyn 2050.

Adroddwyd bod

- Angen cyfeirio mwy at gadarnleoedd y Gymraeg a sut y bwriedir cryfhau'r Gymraeg yn yr ardaloedd hynny sydd yn meithrin y Gymraeg yn gwbl naturiol.
- Angen cyfeirio at gynllunio cymunedol
- Angen ymrwymiad go iawn a fydd yn treiddio i holl waith Llywodraeth Cymru

Gwnaed y sylwadau ychwanegol ar yr ymateb drafft

- Nodwyd nad oes cyfeiriad ar sut y bwriedir gwireddu'r Strategaeth ac o ble daw'r adnoddau i sicrhau ei llwyddiant.
- Cyfeirir at addysg bellach ac addysg uwch. Nodwyd pryder aelod am y gefnogaeth ariannol a roddir i fyfyrwyr Cymru i fynd i brifysgolion o'u dewis.
- Nodwyd yr angen am eglurder wrth gyfeirio at addysg ddwyieithog.
- Awgrymodd aelod bod angen sefydlu ardaloedd penodol Gymraeg.
- Angen rhoi gwerth economaidd i'r Gymraeg a rhaid defnyddio deddfau cynllunio i warchod y Gymraeg.
- Nodwyd bod angen ceisio perswadio pobl Gymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg.
- Angen rhoi ystyriaeth i swyddi yn y Strategaeth.
- Angen sicrhau nad yw'n bosib cam-ddehongli'r ymateb drafft o dan y Maes datblygu 3: Addysg a bod angen cynnwys diffiniad o bolisi iaith addysg Cyngor Gwynedd.

Adroddwyd y bydd yr ymateb drafft i'w gyflwyno i'r Tîm Arweinyddiaeth cyn diwedd y mis gyda'r cyfnod ymgynghori yn dod i ben ar 31 Hydref 2016.

Diolchwyd i'r aelodau am eu sylwadau ac adroddwyd bod modd i'r aelodau ymateb yn uniongyrchol i'r ymgynghoriad hefyd.

**PENDERFYNWYD ymgorffori'r sylwadau ychwanegol yn yr ymateb i'r ddogfen ymgynghori ar ran Cyngor Gwynedd.**

**5. CYNLLUN STRATEGOL Y GYMRAEG MEWN ADDYSG - DRAFFT**

Derbyniwyd adroddiad llafar gan y Swyddog Addysg Ardal Gwynedd yn egluro bod Cynllun 2017-20 yn parhau gyda phum deilliant y cynllun 2010. Adroddwyd y bwriad i osod targedau uchelgeisiol ond yn gyraeddadwy gan y bydd y Cyngor yn gorfod adolygu cynnydd yn erbyn y targedau hynny.

Eglurwyd y bwriad gwreiddiol i gyflwyno cynllun drafft i'r Pwyllgor Iaith ond oherwydd bod templed y cynllun wedi newid cymaint ni fu hynny'n bosibl. Yn ogystal, adroddwyd nad oedd sesiynau ymgynghorol Llywodraeth Cymru ar draws y Gogledd wedi dod i ben tan wythnos diwethaf, gyda'r olaf yn Llandudno.

Adroddwyd ar y tair Adran a'r deilliannau ynghyd a'r targedau drafft mae Cyngor Gwynedd yn bwriadu gosod yn y cynllun gweithredu i ymateb i'r gofynion. Nodwyd bod fframwaith Estyn yn gofyn cwestiwn am y modd y mae'r Cyngor yn cynllunio'n fwriadus a bydd angen dangos hynny.

Nodwyd yr amserlen allweddol ganlynol:-

| | |
|---|---|
| 24 Hydref 2016 | Awdurdodau lleol i lansio ymgynghoriad statudol am 8 wythnos |
| Canol Tachwedd | Anfon data Mudiad Meithrin at yr awdurdodau |
| 20 Rhagfyr 2016 | Awdurdodau'n cyflwyno Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-20 i'r Llywodraeth. |

Nodwyd er bod yr amserlen yn dynn bod posibilrwydd y bydd y ddogfen wedi'i pharatoi ar amser.

Adroddwyd bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu Estyn bob blwyddyn i archwilio ar sail themâu ac archwiliwyd un o feysydd y Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Dewiswyd Gwynedd a Fflint i'w harchwilio. Nodwyd bod adroddiad terfynol Estyn ar eu gwefan erbyn hyn ac mae paragraph 49 yn nodi fel a ganlyn:-

'Ceir rhai enghreifftiau da ble defnyddir arbenigedd yn effeithiol i ddatblygu darpariaeth ar draws awdurdodau lleol, mewn cydweithrediad â chonsortia rhanbarthol a rhwydweithiau rhanbarthol. Enghraifft o hyn yw datblygu'r 'Siarter Iaith' yng Ngwynedd. Nod y Siarter Iaith yw darparu fframwaith i hyrwyddo a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg gan ddisgyblion mewn cyd-destun cymdeithasol. Ceir arwyddion cynnar for y 'Siarter' yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar gynyddu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg gan ddisgyblion yn ysgolion Gwynedd. Mae'r 'Siarter' yn cael ei chyflwyno mewn ysgolion ledled Cymru ar hyn o bryd.'

Nodwyd yr angen i sicrhau bod disgyblion sy'n dilyn cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr Ysgolion yn gallu dilyn y cyrsiau yn y Gymraeg yn y Colegau wedyn.

**PENDERFYNWYD cynnal cyfarfod arbennig i drafod drafft o'r Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-20 yn ystod y cyfnod ymgynghori.**

## 6. DIWEDDARIAD AR WEITHREDIAD Y SAFONAU IAITH

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Datblygu Iaith Gweithle.

Nodwyd bod y gwaith gyda'r Gwasanaeth Oedolion yn canolbwyntio ar ddeall perthynas y Safonau Iaith a Mwy na Geiriau, a sicrhau bod unrhyw ymyrraeth a gynllunnir yn ateb gofynion gweithredu Mwy na Geiriau a'r Awdit Iaith mewnol. Eglurwyd y mewnbwn a roddwyd yn y sesiynau hyfforddiant ar Ymwybyddiaeth Iaith y Gwasanaethau Oedolion ar gyfer gweithwyr cymdeithasol newydd.

Nodwyd bod y pwyslais yn y cyfnod diwethaf wedi bod ar godi ymwybyddiaeth staff a thimau am ofynion y Safonau Iaith, ac y bydd cynllun cyfathrebu yn cael ei ddatblygu i ledaenu negeseuon am arfer dda.

Adroddwyd hefyd bod sgwrs wedi ei chynnal gyda'r tîm Dysgu a Datblygu i edrych ar newidiadau posib i hyfforddiant datblygu sgiliau iaith.

## 7. CWYNION IAITH

Cyflwynwyd - adroddiad y Swyddog Datblygu Iaith yn manylu ar yr un gwyn iaith ddiweddaraf i law a'r ymateb.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 y.h. a daeth i ben am 3.25 y.h.